# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Mawrth, 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Manylion Cyswllt:** | **01286 679923** |
| **Teitl yr Eitem:** | **CYNLLUN FFORDD GWYNEDD 2023-28** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu Cynllun am y pum mlynedd nesaf (Atodiad 1) sydd yn adeiladu ar ddatblygiad y diwylliant gwaith o fewn y Cyngor .

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 “Ffordd Gwynedd” yw’r enw a roddir ar y “ffordd o weithio” y mae Cyngor Gwynedd wedi’i fabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Newid diwylliant, ymddygiadau a meddylfryd sydd wrth wraidd hyn oll ac mae’r nôd o wireddu’r uchelgais ar draws pob rhan o weithgaredd y Cyngor yn her sylweddol ac yn un sydd angen rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth.

2.2 Mabwysiadwyd y “Cynllun Ffordd Gwynedd” gwreiddiol yn Hydref 2015 ac fe adolygwyd ymhellach ym mis Gorffennaf, 2019, pryd y bu i’r Cabinet gymeradwyo y Cynllun presennol. Mae llawer o’r hyn gafodd ei adnabod fel amcanion yn y Cynllun hwnnw wedi’i gyflawni a’i roi ar waith ond bu i’r cyfnodau clo yn ystod cyfnod y Cynllun arafu’r cynnydd a wnaed.

2.3 Mae’n amserol i adolygu a diweddaru’r Cynllun unwaith yn rhagor ac i edrych tuag at y camau nesaf sydd eu hangen er mwyn llawn wreiddio’r diwylliant, a’r “ffordd o weithio”, ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.

2.4 Fel sail i'r adolygiad diweddaraf hwn, bu i bob Adran gynnal hunan-asesiad o’r cynnydd a wnaed ac adnabod y rhwystrau sy’n llyffetheirio eu gallu i wireddu’r “ffordd o weithio” o fewn eu gwasanaethau. Heriwyd yr hunan-asesiadau hynny gan weithgor o aelodau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac fe gyflwynwyd y casgliadau i gyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar yr 20 o Hydref, 2022 (Atodiad 2).

2.5 Cyflwynir y Cynllun arfaethedig ar gyfer y pum mlynedd nesaf ar sail yr ymgynghoriadau hynny. Mae’r Cynllun yn crynhoi yr hyn sydd wedi’i gyflawni hyd yma ond yn canolbwyntio ar y rhaglen waith y byddwn am ei gweithredu er mwyn symud ymlaen i gefnogi holl staff a gwasanaethau’r Cyngor i gyrraedd y nôd.

## 3. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**i) Swyddog Monitro:**

Rwy’n nodi fod y Cynllun drafft yn ganlyniad proses adolygu a chraffu manwl mewn cyfnod o newid sylweddol yn y Cyngor. Rwy’n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad a’r argymhelliad.

**ii) Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol